Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Hysbysiad preifatrwydd APHA ar gyfer rhaglen iechyd gwenyn statudol yr Uned Wenyn Genedlaethol

## Mehefin 2020

## Cynnwys


Mae eich data'n cael eu casglu gan ..... 1

At ba ddibenion y mae eich data'n cael eu casglu a'u defnyddio, a'r sail gyfreithiol dros eu prosesu ..... 1

Â phwy y gall eich data gael eu rhannu ..... 2

Am faint o amser y byddwn yn cadw eich data ..... 2

Canlyniadau peidio â rhoi data personol ..... 3

Defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio ..... 3

Trosglwyddo data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ..... 4

Eich hawliau ..... 4

Sut i wneud cwyn ..... 4

# Mae eich data'n cael eu casglu gan

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw'r rheolydd data ar gyfer y data personol a roddir gennych i APHA.

Mae APHA hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ac rydym yn rheolwyr ar y cyd ar gyfer unrhyw ddata personol perthnasol.

Gallwch gysylltu â Rheolwr Diogelu Data'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn:

Data Protection Manager
Animal and Plant Health Agency
County Hall
Spetchley Road
Worcester
WR5 2NP
enquiries@apha.gsi.gov.uk

Swyddog Diogelu Data Defra sy'n gyfrifol am fonitro bod APHA yn bodloni gofynion deddfwriaeth Diogelu Data ac mae ei fanylion cyswllt i'w gweld yn Siarter Gwybodaeth Bersonol APHA.

# At ba ddibenion y mae eich data'n cael eu casglu a'u defnyddio, a'r sail gyfreithiol dros eu prosesu

Caiff data personol eu casglu a'u storio ar gyfer swyddogaethau statudol Uned Wenyn Genedlaethol APHA mewn perthynas â bioddiogelwch gwenyn mêl, a rheoli plâu a chlefydau o dan ddeddfwriaeth yr UE a'r DU.  Yn benodol, plâu a chlefydau hysbysadwy, mewnforion ac allforion, rhaglen hyfforddi a chynghori'r Uned Wenyn Genedlaethol, Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt (WIIS), ac at ddibenion monitro diogelwch bwyd statudol.

Hefyd, mae swyddogaethau gwyliadwriaeth sganio a gyflawnir gan APHA yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu er mwyn ymarfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolydd data  i reoli plâu gwenyn mêl a chlefydau anifeiliaid o fewn y Deyrnas Unedig.

Mae APHA hefyd yn defnyddio'r data hyn er mwyn cynnal ymchwil i'r ffordd y rheolir y plâu a'r clefydau hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am APHA yn
https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency

Ymhlith yr enghreifftiau o sail gyfreithiol dros brosesu data mae:

- Cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr
- Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sydd gan y rheolwr
- Cyflawni contract y mae'r gwrthrych data yn rhan ohono neu er mwyn cymryd camau ar gais y gwrthrych data cyn ymrwymo i gontract
- Rydych wedi cydsynio i ni brosesu eich data at un neu fwy o ddibenion penodedig

# Â phwy y gall eich data gael eu rhannu

Efallai y bydd data personol ar gael i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn y DU a'r UE er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol.

Gallwn rannu data â Defra a'i asiantaethau, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Iechyd Cyhoeddus, a sefydliadau ac awdurdodau gorfodi eraill.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ryddhau gwybodaeth (gan gynnwys data personol a gwybodaeth fasnachol) o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Deddf Diogelu Data 2018 y DU
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Ni fyddwn yn caniatáu unrhyw dor cyfrinachedd diangen ac ni fyddwn yn gweithredu'n groes i'n rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data y DU.

# Am faint o amser y byddwn yn cadw eich data

Bydd yr holl wybodaeth a ddelir o fewn APHA yn cael ei chadw yn unol â'n polisi cadw. Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch ag enquiries@apha.gsi.gov.uk

O dan amgylchiadau penodol, mae'n bosibl y caiff gwybodaeth ei dal am gyfnodau hwy. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- apêl
- gweithgarwch archwilio

- cwyn
- afreoleidd-dra
- camau cyfreithiol
- cais ffurfiol am wybodaeth
- os yw'n gosod cynsail
- at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol

# Canlyniadau peidio â rhoi data personol

Ar gyfer swyddogaethau statudol APHA mewn perthynas â rheoli plâu a chlefydau: yn benodol mewnforion gwenyn mêl, symudiadau nythfeydd a gwenyn a phlâu a chlefydau hysbysadwy. Mae gofyniad deddfwriaethol i roi data personol angenrheidiol.

I gael rhestr o'r ddeddfwriaeth gyfredol ar gyfer gwenyn mêl a rhywogaethau goresgynnol ewch i: [Legislation.gov.uk]

Ar gyfer gweithgareddau prosesu sy'n seiliedig ar gontract, byddwch yn ymrwymo i gontract â ni yn wirfoddol a bydd gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu er mwyn cyflawni'r berthynas gytundebol honno.

Ar gyfer gweithgareddau prosesu sy'n seiliedig ar gydsyniad, mae gennych hawl i dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl unrhyw bryd.

# Defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio

Nid yw'r wybodaeth a roddir gennych yn gysylltiedig â'r canlynol:

- gwneud penderfyniadau unigol, hynny yw gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomataidd yn unig heb i unrhyw bobl fod yn rhan o'r broses
- neu broffilio, hynny yw prosesu data personol yn awtomataidd er mwyn gwerthuso pethau penodol ynglŷn ag unigolyn Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol arbennig o sensitif

# Trosglwyddo data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

Yn bennaf, ni fydd y data a roddir gennych yn cael eu trosglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Ar achlysuron prin, pan fydd yn gyfreithlon ac yn ategu'r gwaith a gyflawnir gennym er budd y cyhoedd, mae'n bosibl y caiff data ymchwil eu trosglwyddo'n ddiogel y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

# Eich hawliau

Mae rhestr o'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018) i'w gweld yn:

https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/

Gweler Siarter Gwybodaeth Bersonol APHA isod am ddisgrifiad llawn o'r ffordd y mae'r Asiantaeth yn cynnal eich hawliau a'u gwneud yn hygyrch. Mae hyn yn cynnwys ystod lawn o fanylion cyswllt.

https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/personal-information-charter#privacy-notices

# Sut i wneud cwyn

Mae gennych hawl gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr awdurdod goruchwylio) ar unrhyw adeg. Os byddwch yn dymuno arfer yr hawl honno, mae manylion llawn ar gael yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general- data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/

---

Rydym yn adolygu ein Hysbysiadau Preifatrwydd yn rheolaidd. Cafodd y ddogfen hon ei diweddaru ddiwethaf ar 18 Mehefin 2020.

(h) Hawlfraint y Goron 2018

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn un o asiantaethau gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.